*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 280 (Cy. 74)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU
# LLYGREDD MOROL, CYMRU

## Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Mawrth 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Mawrth 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2017* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 67(2), (3), 72A(4), 107A(3), 107B(5) a 316(1)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b)(**2**) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 2009 p. 23; diwygiwyd gan Ran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3), mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o'r Ddeddf, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn cysylltiad ag unrhyw beth a wneir wrth gyflawni gweithgareddau morol trwyddedadwy o ran Cymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer yn rhinwedd adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf. *Gweler* adran 322(1) o'r Ddeddf i gael diffiniad o "Welsh inshore region".